



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth  
The Subordinate Legislation Committee**

**Dydd Mawrth, 29 Ionawr 2008**

**Tuesday, 29 January 2008**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau  
Introduction, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest
- 4 Offerynnau ac Offerynnau Drafft na Fydd y Cynulliad yn Cael ei Wahodd i Roi Sylw Arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog Rhif 15.2, ac Offerynnau sy'n Agored i gael eu Dirymu yn unol â Phenderfyniad gan y Cynulliad (Gweithdrefn Negyddol)  
Instruments and Draft Instruments in Respect of which the Assembly is not Invited to Pay Special Attention under Standing Order No. 15.2, and Instruments Subject to Annulment Pursuant to a Resolution of the Assembly (Negative Procedure)
- 5 Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei Wahodd i Dalu Sylw Arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog Rhif 15.3, ac Offerynnau sy'n Agored i gael eu Dirymu yn Unol â Phenderfyniad gan y Cynulliad (Gweithdrefn Negyddol)  
Instruments in Respect of which the Assembly is Invited to Pay Special Attention under Standing Order No. 15.3, and Instruments Subject to Annulment Pursuant to a Resolution of the Assembly (Negative Procedure)
- 7 Gohebiaeth y Pwyllgor  
Committee Correspondence
- 7 Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007—  
Y Wybodaeth Ddiweddaraf  
The Proposed NHS Redress (Wales) Measure 2007—Update
- 9 Unrhyw Fater Arall  
Any Other Business
- 10 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf  
Date of the Next Meeting

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y pwyllgor. Yn ogystal,  
cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee.  
In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

**Aelodau'r pwyllgor yn bresennol**  
**Committee members in attendance**

Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Alun Davies	Llafur Labour
Andrew R.T. Davies	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Paul Davies	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Irene James	Llafur Labour
David Lloyd	Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) The Party of Wales (Committee Chair)
Sandy Mewies	Llafur Labour
Janet Ryder	Plaid Cymru The Party of Wales

**Swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn bresennol**  
**Assembly Parliamentary Service officials in attendance**

Anna Daniel	Clerc Clerk
Gwyn Griffiths	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Joanest Jackson	Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol Assistant Legal Adviser
Olga Lewis	Dirprwy Glerc Deputy Clerk

*Dechreuodd y cyfarfod am 8.15 a.m.*  
*The meeting began at 8.15 a.m.*

**Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau**  
**Introduction, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest**

[1] **David Lloyd:** Croeso i gyfarfod Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth y Cynulliad. Bore da i chi i gyd. Croesawaf y swyddogion a'r cyhoedd sydd yn yr oriel gyhoeddus. Os bydd argyfwng, bydd y tywyswyr yn eich arwain at yr allanfa agosaf, wedi i'r gweddill ohonom ddianc yn gyntaf, yn naturiol. Gellir defnyddio'r clustffonau i gael cyfieithiad ar y pryd ac i addasu lefel y sain, a gall y tywyswyr ddangos i chi sut mae eu defnyddio.

**David Lloyd:** Welcome to the meeting of the Subordinate Legislation Committee. Good morning to you all. I welcome officials and those in the public gallery. If there is an emergency, the ushers will lead you to the nearest exit, after the rest of us have escaped, naturally. The headphones can be used for simultaneous translation and to modify the sound levels, and the ushers can show you how to use them.

[2] Rhaid diffodd ffonau symudol yn llwyr. Mae hynny'n gyfarwyddyd i'm cyd-Aelodau ac i finnau gymaint ag i'r cyhoedd.

Mobile phones must be switched off completely. That is an instruction to my fellow Members and me as much as it is to

Mae cyfieithiad ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ar sianel 1 a gellir clywed cyfraniadau yn yr iaith wreiddiol ar sianel 0.

the members of the public. A simultaneous translation from Welsh to English is available on channel 1 and contributions made in the original language can be heard on channel 0.

[3] Nid ydym wedi derbyn unrhyw ymddiheuriadau, felly awn ymlaen gyda'r Aelodau sydd yma.

We have not received any apologies, so we will proceed with the Members who are here.

8.15 a.m.

**Offerynnau ac Offerynnau Drafft na Fydd y Cynulliad yn Cael ei Wahodd i Roi Sylw Arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog Rhif 15.2, ac Offerynnau sy'n Agored i gael eu Dirymu yn unol â Phenderfyniad gan y Cynulliad (Gweithdrefn Negyddol)**

**Instruments and Draft Instruments in Respect of which the Assembly is not Invited to Pay Special Attention under Standing Order No. 15.2, and Instruments Subject to Annulment Pursuant to a Resolution of the Assembly (Negative Procedure)**

[4] **David Lloyd:** Mae Joanest wedi bod yn hynod o weithgar yn edrych ar y tri offeryn hyn: SLC99, Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008, SLC100, Rheoliadau Defnyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Gasgedi mewn Caeadau) (Cymru) 2008, ac SLC93, Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Nodi Ffynonellau Sŵn) (Cymru) 2007. Joanest, a oes unrhyw beth i'w ychwanegu at yr hyn sydd wedi'i nodi eisoes?

**David Lloyd:** Joanest has been diligently examining these three instruments: SLC99, the Assembly Learning Grants (European Institutions) (Wales) Regulations 2008, SLC100, the Plastic Materials and Articles in Contact with Food (Lid Gaskets) (Wales) Regulations 2008, and SLC93, the Environmental Noise (Identification of Noise Sources) (Wales) Regulations 2007. Joanest, is there anything to add to what is already noted?

[5] **Ms Jackson:** In respect of SLC99 and SLC100, there is nothing to add to the reports. SLC93 is a little more unusual. As regards Standing Order No. 15.2, which covers what I suppose we would call the more technical drafting elements, the instrument is fine, although you will notice that I have also brought this before the committee under item 3. I am placing it before you, as you could exercise your discretion here to bring this instrument to the Assembly's attention under Standing Order No. 15.3(v). The report before you shows my observations together with, in full, the response that I received from the Government. Ultimately, it appears that everything that was required to be done to a specified time has been done, but the Government, in this instance, imposed upon itself a policy and a timetable to follow, and these regulations did not coincide with the domestic policy that the Government had imposed upon itself. Technically, the regulations are fine, but I thought that you might be interested to see that we sometimes look to the Standing Orders when we check the regulations to ascertain whether there is a possibility that they should be brought before you for consideration under, say, Standing Order No. 15.3 or the other discretionary Standing Orders.

[6] **David Lloyd:** Diolch, Joanest.

**David Lloyd:** Thank you, Joanest.

8.18 a.m.

**Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei Wahodd i Dalu Sylw Arbennig iddynt  
o dan Reol Sefydlog Rhif 15.3, ac Offerynnau sy'n Agored i gael eu Dirymu yn  
Unol â Phenderfyniad gan y Cynulliad (Gweithdrefn Negyddol)  
Instruments in Respect of which the Assembly is Invited to Pay Special Attention  
under Standing Order No. 15.3, and Instruments Subject to Annulment  
Pursuant to a Resolution of the Assembly (Negative Procedure)**

[7] **David Lloyd:** Mae Joanest wedi crybwyll yr eitem hwn eisoes. **David Lloyd:** Joanest has already touched on this item.

[8] **Ms Jackson:** Sori. **Ms Jackson:** Sorry.

[9] **David Lloyd:** Credaf y bydd y rhan fwyaf o'r drafodaeth o dan eitem 3 yn ymwneud â'r un rheoliad, sef SLC93. Yr ydym wedi trafod hyn, a'r gwahaniaethau rhwng y weithdrefn gadarnhaol a'r weithdrefn negyddol, o'r blaen. Yr ydych wedi clywed yr hyn a oedd gan Joanest i'w ddweud ynglŷn â'r rheoliadau sŵn amgylcheddol hyn. Bu iddi nodi bod rhesymau eraill i'w trafod o dan Rheol Sefydlog Rhif 15.3. Felly, a oes gennych sylwadau? **David Lloyd:** I believe that most of the discussion under item 3 will deal with the same regulation, namely SLC93. We have discussed this, and the differences between the affirmative and negative procedures, before. You have heard what Joanest said about the environmental noise regulations. She noted that there are other reasons for discussion under Standing Order No. 15.3. Therefore, are there any comments?

[10] **Eleanor Burnham:** Mae gennyf gwestiwn ynglŷn â'r dyddiad. Nid wyf yn siŵr pam nad ydym wedi trafod hyn eisoes. A fyddai'n bosibl cael gwybodaeth ychwanegol ar sut y defnyddir y rheoliadau hyn? **Eleanor Burnham:** I have a question on the date. I am not sure why we have not discussed this already. Would it be possible to have some additional information on how these regulations will be used?

8.20 a.m.

[11] **Joanest Jackson:** They have not come before you because we received them just a few weeks ago. The regulations that were made in 2006 indicated that these regulations would be made around a year ago. They are around a year behind the timetable that the Government set for itself. Their purpose was to identify specific sources of noise caused by large agglomerations, major trunk roads and certain railways. The criteria for identification are outlined in the report. Is there anything else?

[12] **Sandy Mewies:** Joanest said that, technically, the regulations are fine, but I recognise, Chair, that they are important and have a huge impact, and that noise nuisance has an enormous impact on people's lives. These regulations are running late. What benefit would there be in us making this the subject of a full debate, because technically they are correct, are they not?

[13] **Joanest Jackson:** Technically they are correct. Everything was running late, but the Government report now indicates that it has caught up and no action will be taken by the European Commission on these regulations. As I said, I thought that it was important to bring them to the committee. It is clearly left to your discretion as to whether you wish the report to be laid as drafted, which would include the response from the Government, or whether you wish to say, 'No, we do not wish to report these regulations'. That is entirely in your hands, but I thought that it was important to note that the Standing Order is not there to just pad out

the pages. We look to see whether the regulations comply with the whole of Standing Order No. 15, and not just the technical drafting aspects, which are normally brought before you.

[14] **Sandy Mewies:** That is very important, Chair. Apart from anything else, it is another layer of learning, is it not?

[15] **Joanest Jackson:** Yes.

[16] **David Lloyd:** Hoffwn dynnu pethau at ei gilydd. A ydym am argymhell bod y pwyllgor hwn yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog Rhif 15.3? Yr wyf yn tueddu i gytuno â'r hyn a ddywedodd Sandy.

**David Lloyd:** I would like to draw things together. Are we recommending that this committee invites the Assembly to pay special attention to this instrument under Standing Order No. 15.3? I tend to agree with what Sandy said.

[17] **Eleanor Burnham:** A yw'n synhwyrol i anfon llythyr at y Llywodraeth—ni wn at bwy—yn nodi ein bod yn pryderu bod yr amserlen yn llithro?

**Eleanor Burnham:** Is it sensible to write to the Government—I do not know to whom—noting our concerns that the timetable has slipped?

[18] **David Lloyd:** Y pwynt sylfaenol yw bod y rheoliadau hyn yn dechnegol gywir. Yr oedd yr amserlen wedi llithro, ond mae wedi dal i fyny erbyn hyn. Nid yw Ewrop am gosbi'r Cynulliad am unrhyw fethiant yn yr amseriad, felly mae unrhyw fethiant neu gyflawniad amherffaith o ran amcanion polisi, yn ôl yr hyn a ddeallaf, wedi ei gywiro erbyn hyn, er i'r amserlen lithro. Felly, ni chredaf fod angen inni dynnu sylw arbennig at yr offeryn hwn. Credaf y dylem dderbyn yr adroddiad fel y mae. Yr wyf yn cymryd bod aelodau'r pwyllgor yn cytuno â hynny. Nid oes digon o gam i ni fynnu dadl yn y Siambr. Hefyd, mae'r mater wedi ei gywiro.

**David Lloyd:** The fundamental point is that these regulations are technically correct. The timetable had slipped, but it has now caught up. Europe will not punish the Assembly for any failure with regard to timing, so any failure or imperfect achievement of policy objectives, as I understand it, have now been corrected, although the timetable did slip. Therefore, I do not think that we need to draw particular attention to this instrument. I think that we should accept the report as it is. I take it that committee members agree with that. The level of failure does not necessitate a debate in the Chamber. Furthermore, the issue has been corrected.

[19] Diolch i Joanest am ei sylwadau, sy'n tynnu ein sylw at y ffaith fod craffu bendigedig ar bob un o'r rheoliadau hyn, os nad unrhyw beth arall. Gwyn, a oes unrhyw beth i'w ychwanegu?

I thank Joanest for her comments, which has drawn our attention to the fact that there is excellent scrutiny of every one of these regulations, if nothing else. Gwyn, do you have anything to add?

[20] **Mr Griffiths:** Fel mater cyffredinol, byddwn o dro i dro yn cyflwyno adroddiadau drafft o'r math hwn ger eich bron, fel eich bod yn gallu rhoi arweiniad inni am y math o bethau yr ydych am i ni eu hystyried o dan Reol Sefydlog Rhif 15.3. Efallai na fyddant angen eu hadrodd yn uniongyrchol, ond mae'n bwysig inni gael ymateb gennych am y pethau yr ydych am inni eu hystyried.

**Mr Griffiths:** As a general point, from time to time we will bring draft reports of this type before you, so that you can give us guidance on the types of things that you would like us to consider under Standing Order No. 15.3. They may not need to be reported directly, but it is important that we get feedback from you on the things that you would like us to consider.

[21] **David Lloyd:** Diolch yn fawr, Gwyn. Felly, derbyniwn yr adroddiad fel y mae.

**David Lloyd:** Thank you, Gwyn. So, we will accept the report as it is.

[22] **Ms Jackson:** A ydych yn hapus gyda SLC99 a SLC100? **Ms Jackson:** Are you happy with SLC99 and SLC100?

[23] **David Lloyd:** Ydym. Mae'n ddrwg gennyf—yr oeddwn yn ddiffygiol wrth gymryd yn ganiataol ein bod wedi pasio'r ddau hynny. Diolch yn fawr, Joanest. **David Lloyd:** Yes. I am sorry—I was remiss in taking for granted that those two had been passed. Thank you, Joanest.

8.26 a.m.

### **Gohebiaeth y Pwyllgor Committee Correspondence**

[24] **David Lloyd:** Byddwch wedi gweld ymateb Carwyn Jones i'n llythyr o ran beth yn hollol yw ystyr 'ar y cyfle cyntaf'. A yw pawb yn hapus gyda hynny? Gwelaf eich bod. **David Lloyd:** You will have seen Carwyn Jones's response to our letter regarding the exact meaning of 'the earliest opportunity'. Is everyone content with that? I see that you are.

8.26 a.m.

### **Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007—Y Wybodaeth ddiweddaraf The Proposed NHS Redress (Wales) Measure 2007—Update**

[25] **David Lloyd:** Byddwch yn ymwybodol inni gynhyrchu'r adroddiad swmpus hwn cyn y Nadolig, a bydd dadl yn cael ei chynnal yng Nghyfarfod Llawn y prynhawn yma ar Gyfnod 1 y Mesur, gan fod y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG wedi cyflwyno ei adroddiad dros y penwythnos hefyd. Yn naturiol, bydd pob un ohonoch hefyd wedi darllen adroddiad y pwyllgor yn drylwyr. **David Lloyd:** You will be aware that we produced this lengthy report before Christmas, and a debate will be held in Plenary this afternoon on Stage 1 of the Measure, because the Proposed NHS Redress (Wales) Measure Committee also tabled its report over the weekend. Naturally, you will all have read the committee's report thoroughly.

[26] O ran ein hadroddiad, yr oedd gennym bedwar o argymhellion. Ein hargymhelliad cyntaf oedd nad oeddem yn cymryd y Mesur hwn fel unrhyw fath o gynsail ar gyfer y dyfodol, ac mai mater o ddamwain hanesyddol oedd y ffaith fod y Mesur hwn wedi cael ei drin yn y modd y cafodd. In terms of our report, we made four recommendations. Our first recommendation was that we would not take this Measure as any kind of precedent for the future, and that it was a historical accident that it had been treated in the way that it was.

[27] Ein hail argymhelliad oedd y dylai'r pwyllgor hwn, sef y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, edrych eto ar y Mesur hwn pan fydd yn cael ei ystyried yng Nghyfnod 2. Our second recommendation is that this committee, the Subordinate Legislation Committee, should look again at this Measure in Stage 2.

[28] Ein trydydd argymhelliad oedd y The third recommendation was that we

dylem osod patrwm o graffu ychwanegol, sef y weithdrefn uwch gadarnhaol, a'r argymhelliaid olaf oedd ymgynghori â chyrrff sydd â buddiannau mewn perthynas â'r Mesur hwn. Yr oeddem fel pwyllgor wedi derbyn sicrhad y Gweinidog nad oedd angen cynnwys dyletswydd statudol i sicrhau bod y Gweinidog yn ymgynghori gyda'r gwahanol gyrff hyn. Bu inni dderbyn ei sicrhad y byddai'n ymgynghori beth bynnag.

should set a pattern of additional scrutiny, namely the superaffirmative procedure, and the final recommendation was to consult with organisations that have an interest in this Measure. As a committee, we had received the Minister's assurance that we did not need to include a statutory duty to ensure that the Minister would consult with these various organisations. We accepted her assurance that she would undertake consultation in any event.

[29] O gofio ein pedwar prif argymhellion fel pwyllgor, mae'n ddiddorol nodi fod y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG wedi cefnogi'r ffaith y dylai bod mwy o graffu, ond nid oedd am ddefnyddio'r weithdrefn uwch gadarnhaol, a oedd yn un o'n hargymhellion. Mae'r pwyllgor hwnnw yn argymhell y dylai bod dyletswydd statudol ar y Gweinidog i ymgynghori, sydd hefyd yn wahanol i'n hargymhelliaid fel pwyllgor. Bydd y Gweinidog yn adlewyrchu ar yr argymhellion gwahanol hyn gan y pwyllgorau gwahanol ac yn dweud wrthym am y ffordd ymlaen yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma. Felly, y prynhawn yma bydd dadl Cyfnod 1 ar y Mesur, ac yr ydym yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn nodi ei safbwynt ynglŷn â'r argymhellion, o ran ei derbyn neu ei gwrthod, cyn ein bod yn symud i Gyfnod 2 y Mesur, sydd yn dechrau yfory. Bydd y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG yn ystyried yn fwy manwl beth yn union yw holl oblygiadau'r Mesur o dan Gyfnod 2. Bydd trafodaethau Cyfnod 2 yn dod i ben erbyn diwedd Chwefror. Yn rhyfeddol, nid wyf yn gwybod rhyw lawer am Gyfnod 2 ond, yn naturiol, bydd Anna yn hyddysg iawn o ran goblygiadau Cyfnod 2 y Mesur hwn, felly galwaf ar Anna.

Bearing in mind our four main recommendations as a committee, it is interesting to note that the Proposed NHS Redress (Wales) Measure Committee has supported the principle that there should be more scrutiny, but it does not want to go down the superaffirmative route, which was one of our recommendations. That committee also recommends that there should be a statutory duty on the Minister to consult, which also differs from our recommendation as a committee. The Minister will reflect on these various recommendations from the committees and tell us the way forward in Plenary this afternoon. So, this afternoon there will be the Stage 1 debate on the Measure, and we hope that the Minister will make her position clear as to whether she accepts or rejects the recommendations, before we move on to Stage 2 of the Measure, which begins tomorrow. The Proposed NHS Redress (Wales) Measure Committee will consider in greater detail the exact implications of the Measure in Stage 2. The Stage 2 discussions will finish by the end of February. Surprisingly, I do not know much about Stage 2, but Anna will, naturally, be very informed as to the implications of Stage 2 of this Measure, so I call on Anna.

8.30 a.m.

[30] **Ms Daniel:** Pwrpas yr eitem hon y bore yma yw gofyn a yw'r pwyllgor am edrych eto ar y Mesur yn ystod Cyfnod 2. Mae Cyfnod 2 yn bennaf yn ymwneud ag edrych ar welliannau i'r Mesur ac y mae cyfrifoldeb ar y pwyllgor Mesur i wneud hynny. Dim ond aelodau o'r pwyllgor Mesur sy'n gallu cynnig gwelliannau a phleidleisio arnynt, ond mae pob Aelod o'r Cynulliad yn

**Ms Daniel:** The purpose of this item this morning is to ask whether the committee would like to look again at the Measure in Stage 2. Stage 2 is mostly concerned with looking at amendments to the Measure and the Measure committee has a responsibility to do that. Only members of the Measure committee can propose amendments and vote on them, but all Assembly Members can table



gallu cyflwyno gwelliannau i'r pwyllgor Mesur. Mae angen i chi ystyried, fel pwyllgor, beth yr hoffech ei wneud yn ystod Cyfnod 2 ac a fydddech am ystyried cyflwyno gwelliannau i'r pwyllgor Mesur. Mae hynny'n benderfyniad i chi.

[31] **David Lloyd:** Fe gofiwch yr hyn a ddywedais ar y dechrau ac fe gofiwch hefyd, o'n hadroddiad ni, mai un o'n argymhellion oedd bod y pwyllgor hwn yn cadw'r hawl i edrych ar y Mesur hwn pan fydd yn cael ei ystyried yng Nghyfnod 2. Gan fod hynny'n sefyll fel argymhelliad, cymeraf fod y pwyllgor hwn yn glynu wrth hynny a'n bod am edrych ar y Mesur hwn yng Nghyfnod 2. Sut yr ydym am wneud hynny yw'r cwestiwn mawr.

[32] **Alun Davies:** Yr wyf yn cytuno â chi, Gadeirydd, ond buaswn yn dweud bod y drafodaeth sy'n digwydd yn awr yn drafodaeth wleidyddol ar y Mesur a chredaf ei fod yn bwysig bod y pwyllgor Mesur yn cael cyfle i gael y drafodaeth honno. Os oes angen i ni ystyried y peth ar ddiwedd y Cyfnod, byddaf yn ddigon hapus gwneud hynny ond credaf fod y broses yn un gwleidyddol ar hyn o bryd, nad yw'n amharu ar ein gwaith ni yn y fan hon.

[33] **David Lloyd:** Diolch, Alun, mae hynny o gymorth. Felly, yr ydych yn hapus i adroddiad ac argymhellion y pwyllgor hwn i gael eu cyflwyno i'r pwyllgor Mesur, fel y gall y pwyllgor hwnnw eu trafod neu eu defnyddio yn gynseiliau i'w drafodaethau yn ystod Cyfnod 2. A yw pawb yn hapus â hynny? Gwelaf eich bod. A oes unrhyw beth arall ynglŷn â'r Mesur arfaethedig? Gwelaf nad oes.

8.33 a.m.

### **Unrhyw Fater Arall Any Other Business**

[35] **David Lloyd:** Byddwch yn cofio i ni sôn yn y pwyllgor diwethaf am y syniad o ymweld â Senedd yr Alban a'r pwyllgor is-ddeddfwriaeth. Mae'r dyddiad wedi'i gadarnhau erbyn hyn ac y mae'n disgwyl ein cyfarfod ar 15 Mai. Credaf fod hynny'n iawn gyda phawb yn y fan hon, yn ôl yr e-byst. Mae hynny wedi ei gadarnhau, felly.

amendments to the Measure committee. You need to consider, as a committee, what you would like to do during Stage 2 and whether you would like to consider tabling amendments to the Measure committee. That is a decision for you.

**David Lloyd:** You will remember what I said at the beginning and you will also remember, from our report, that one of our recommendations was that this committee was to retain the right to look at the Measure when it was considered in Stage 2. As that stands as a recommendation, I take it that this committee sticks to that and that we would want to look at the Measure in Stage 2. The big question is how we are going to do that.

**Alun Davies:** I agree with you, Chair, but I would say that the discussion that is now under way is a political discussion on the Measure and I believe that it is important that the Measure committee has the opportunity to have that discussion. If we need to consider it at the end of the Stage, I would be quite happy to do that, but I think that the process is currently a political one, which does not impinge on our work here.

[34] **David Lloyd:** Thank you, Alun, that is helpful. So, you are happy for the report and recommendations of this committee to be presented to the Measure committee, so that that committee can discuss them or use them as foundations for its discussions during Stage 2. Is everyone happy with that? I see that you are. Is there anything else about the proposed Measure? I see that there is not.

**David Lloyd:** You will remember that we discussed in the last committee the idea of visiting the Scottish Parliament and its subordinate legislation committee. The date has now been confirmed and it is expecting to meet us on 15 May. I think that that is fine with everyone here, according to the e-mails. That has therefore been confirmed.

[36] Nid oes gennyf i unrhyw fater arall i'w drafod o dan unrhyw fater arall. A oes unrhyw fater arall gan unrhyw un arall, i barhau â'r gynghanedd? Gwelaf nad oes. Diolch yn fawr. I do not have any other business to be discussed under any other business. Does any other Member have any other business, to continue with the poetic repetition? I see that they do not. Thank you very much.

8.33 a.m.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**  
**Date of the Next Meeting**

[37] **David Lloyd:** Bydd y cyfarfod nesaf wythnos nesaf ar 5 Chwefror. Diolch yn fawr am eich presenoldeb a diolch i'r cyfieithwyr. **David Lloyd:** The next meeting will be held next week on 5 February. I thank you for your attendance and thank the interpreters.

*Daeth y cyfarfod i ben am 8.34 a.m.*  
*The meeting ended at 8.34 a.m.*